

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay, AC
Cadeirydd – y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ein Cyf: AG/OS/SB

23 Tachwedd 2019

Annwyl Mr Ramsay

RHEOLI APWYNTIADAU DILYNOL CLEIFION ALLANOL LEDLED CYMRU

Diolch yn fawr am eich llythyr a dderbyniwyd ar 4 Hydref 2019 a oedd yn gofyn am ragor o eglurder ar nifer o faterion.

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ddiweddariad llawn ar gynnydd yn erbyn yr holl argymhellion erbyn diwedd mis Ebrill 2020. Fodd bynnag, ni fyddwn wedi dilysu data ar y sefyllfa ddiwedd blwyddyn erbyn hynny, felly hoffwn gynnig y byddai diwedd mis Mai yn adeg fwy priodol i roi diweddariad gan y byddai'r diweddariad hwnnw'n cynnwys y sefyllfa ddiwedd blwyddyn lawn.

Yng nghyswilt argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn egluro wrth y Pwyllgor beth fydd y canlyniadau i'r Byrddau Iechyd sy'n methu cyrraedd y targedau newydd mewn perthynas â chleifion allanol.

Fel y trafodwyd yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, rydym wedi gosod y targedau a ganlyn ar gyfer cleifion allanol:

- Pob Bwrdd Iechyd i bennu dyddiad adolygiad clinigol ar gyfer 95% o'r holl gleifion sydd ar restr aros am apwyntiad dilynol erbyn mis Rhagfyr 2019
- Pob Bwrdd Iechyd i bennu ffactor risg clinigol i 98% o'r cleifion sydd ar y rhestr aros gofal llygaid erbyn mis Rhagfyr 2019
- Pob bwrdd Iechyd i roi adroddiad manwl ar lwybrau cleifion 'gweld yn ôl symptomau' erbyn mis Rhagfyr 2019

- Sicrhau gostyngiad o 15% o leiaf yn y rhestr aros am apwyntiad dilynol erbyn mis Mawrth 2020, 20% arall erbyn mis Mawrth 2021, ac 20% arall erbyn mis Mawrth 2022
- Sicrhau gostyngiad o 15% o leiaf yn nifer y cleifion sy'n wynebu dros 100% o oedi erbyn mis Mawrth 2020, 20% arall erbyn mis Mawrth 2021 ac 20% arall erbyn mis Mawrth 2022

Mae'r targedau hyn yn heriol a byddant yn ei gwneud yn ofynnol i'r byrddau iechyd newid eu model cleifion allanol yn unol â'n strategaeth. Llywodraeth Cymru fydd yn adolygu'r cynnydd yn erbyn y targedau hyn, gyda chefnogaeth yr Uned Gyflawni, yn unol â'n fframwaith rheoli perfformiad presennol, fel a ganlyn:

- Bydd y Byrddau Iechyd yn llunio adroddiad misol i dynnu sylw at gynnydd yn erbyn y targedau, y blaenoriaethau gofal dilynol wedi'i drefnu a roddir ar waith, a'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â gweithgareddau sy'n cael eu hariannu. Bydd rhaid rhoi manylion camau gweithredu cywirol yn yr adroddiad pan na fydd cynnydd yn cael ei wneud
- Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu hadolygu gan staff Llywodraeth Cymru a fydd yn cwestiynu unrhyw broblemau, gan geisio sicrwydd pan fo angen. Yna byddant yn cael eu hadolygu gan y grŵp llywio cleifion allanol drwy gymorth ac adolygiad gan gymheiriaid. Caiff cynnydd yn erbyn y targedau cleifion allanol eu trafod yng nghyfarfodydd Ansawdd a Chyflenwi byrddau iechyd, sy'n cael eu cadeirio gan Ddirprwy Brif Weithredwr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a'r Cyfarwyddwr Cyflawni Rhaglen
- Pan fydd angen, bydd problemau sy'n ymwneud â pherfformiad yn cael eu huwchgyfeirio i gyfarfodydd y Tîm Gweithredu ar y Cyd yr wyf yn eu cadeirio.

Bydd y lefel hon o graffu yn rhoi ffocws clir ar gyflawni'r targedau. Os na fydd y targedau'n cael eu cyrraedd, byddwn yn ystyried cymryd yr arian yr ydym wedi'i fuddsoddi yng ngwaith dilynol y byrddau iechyd yn ôl. Mae hi'n bwysig nodi y gallai rhai o'r cynlluniau sy'n cael eu hariannu gymryd ychydig o amser i gael effaith oherwydd heriau o ran eu rhoi ar waith yn lleol. Er enghraifft, mae rhai byrddau iechyd wrthi'n newid eu meini prawf cyfeirio ar gyfer cyflyrau penodol. Ni ellir goresgyn yr heriau hyn yn gyflym gan eu bod yn gofyn am ymgysylltiad ymgynghorol, prynu i mewn a phrofi cyn eu cyflwyno a'u rhoi ar waith yn llawn.

Mae'r buddsoddiad a ganlyn wedi'i wneud i helpu byrddau iechyd i wella amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau dilynol a rhoi datrysiadau cynaliadwy ar waith i drawsnewid apwyntiadau cleifion allanol yn 2019/20:

Bwrdd Iechyd	Cyfanswm
Hywel Dda	£503,132
Caerdydd a'r Fro	£502,771
Bae Abertawe	£499,964
Cwm Taf Morgannwg	£515,183
Powys	£176,146
Aneurin Bevan	£504,846
Uned Reoli Sylfaenol	£484,860
Canolfan Ganser Felindre	£52,193
Cyfanswm hyd yma	£3,239,095

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Andrew Goodall', written in a cursive style.

Dr Andrew Goodall CBE